

BETH YW GORCHYMYN ATGYFEIRIO?

Gorchymyn a gyflwynir gan y Llys i'ch helpu i gadw allan o drwbl pellach a'ch helpu i gyflawni eich nodau a'ch uchelgeisiau yw Gorchymyn Atgyfeirio.

BETH DDIGWYDDODD I MI YN Y LLYS HEDDIW?

Gorchymyn Atgyfeirio am _____ mis
Costau: _____
lawndal _____

Os ydych yn cael trafferth â thalu dirwyon y llys, cysylltwch â: 01633 645 112

Pwy ydy'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid (GCI) ?

Gwasanaeth sy'n cefnogi pobl ifanc i leihau'r risg o droseddu yw'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid (GCI). Rydym hefyd yn gweithio'n agos gydag ysgolion, yr heddlu, y gwasanaeth prawf, gwasanaethau cymdeithasol ac ieuchy.

BETH FYDD YN DIGWYDD NESAF?

Bydd Swyddog GCI yn cysylltu â chi o fewn y 24-48 awr nesaf i drefnu i ymweld â chi i gwblhau asesiad.

Bydd yr asesiad yn gweithio gyda chi, eich rhieni ac asiantaethau eraill (ysgol, yr heddlu, gwasanaethau cymdeithasol) i edrych ar eich ymddygiad troseddol a phethau sy'n digwydd yn eich bywyd i nodi ffyrdd y gall y GCI ac eraill helpu.

Yn dilyn hynny, bydd gofyn i chi fynychu Cyfarfod Panel gyda dau Wirfoddolwr Cymunedol cymwys (Aelodau Panel) gyda'r GCI a'ch rhieni a'ch gofalwyr i drafod yr asesiad a llunio cynllun i'ch helpu i fynd i'r afael â'ch ymddygiad troseddol a datblygu eich uchelgeisiau i'r dyfodol.

Pan fyddwch yn llofnodi'r cynllun (contract), bydd hynny'n nodi dechrau eich Gorchymyn Atgyfeirio.

BETH SYDD I'W DDISGWYL GENNYF?

Disgwylir i chi fynychu pob un o'ch apwyntiadau gyda'r GCI a chyfrannu at y sesiynau hyn.

Cadw mewn cysylltiad gyda'r GCI.

Dylech hefyd roi gwybod i ni os bydd unrhyw beth yn newid yn eich bywyd, a gallwch hefyd siarad â ni am unrhyw beth sy'n eich poeni.

BETH SYDD I'W DDISGWYL GAN FY RHIENI / GOFALWYR?

Cefnogi eich plentyn i fynychu pob apwyntiad a mynychu unrhyw asesiadau.

Cadw mewn cysylltiad gyda'r GCI.

Dylech hefyd roi gwybod i ni os bydd unrhyw beth yn newid yn eich bywyd, a gallwch hefyd siarad â ni am unrhyw beth sy'n eich poeni.

BLE FYDD FY APWYNTIADAU'N CAEL EU CYNNAL?

Mae'n bosibl y byddant yn cael eu cynnal yn eich cartref, yn yr ysgol neu yn y gymuned. Ond fel arfer, caiff hyn ei drafod a'i gytuno gyda chi a'ch rhieni neu ofalwyr.

BETH SY'N DIGWYDD OS NAD YDW I'N GALLU MYNYCHU FY APWYNTIADAU?

Cysylltwch â'r GCI ar unwaith ar 01352 701125. Os ydych yn methu apwyntiad, mae'n bosibl y byddwch yn derbyn rhybudd ac yn dychwelyd i'r Llys.

BETH DDYLWN EI WNEUD OS OES ARNAF ANGEN RHAGOR O GYNGOR NEU WYBODAETH?

Cysylltwch â'r Swyddog Dyletswydd GCI ar 01352 701125.
<https://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Flintshire-Integrated-Youth-Provision/Youth-Justice-Service-Information.aspx>

SUT I WNEUD CWYN

Siaradwch â'r Swyddog GCI neu ffoniwch 01352 701125

Opsiwn arall fyddai ysgrifennu at, neu ffonio:

**Y Rheolwr Gweithrediadau
Gwasanaeth Cyfiawnder**

Ieuencid Sir y Fflint

Neuadd y Sir,

Raikes Lane,

Yr Wyddgrug,

Sir y Fflint

CH7 6ND

☐: **(01352) 701125**



**GWASANAETH
CYFIAWNDER
IEUENCTID
SIR Y FFLINT
Gwybodaeth am y
Gorchymyn**

Atgyfeirio i Blant a Phobl Ifanc